# Castell Conwy
## Gwybodaeth Ychwanegol



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cadw

## Gwybodaeth Ychwanegol

Bwriad yr arweiniad hwn yw cynorthwyo ysgolion i gynllunio ymweliadau â safleoedd a weinyddir gan Cadw. Nid yw'n asesiad risg. Bydd gan bob grŵp ei ofynion penodol. Mae'n rhaid i ysgolion gynnal eu hasesiad risg eu hunain yn unol â'r arweiniad a gyhoeddwyd ar eu cyfer gan lywodraeth ganolog a lleol o bryd i'w gilydd. Anogir arweinwyr grŵp i gynnal ymweliadau archwilio i asesu lefel y risg. Ni chodir tâl am ymweliadau archwilio a gaiff eu trefnu ymlaen llaw.

## Mae'n rhaid goruchwylio grwpiau ysgol bob amser

Gall henebion hanesyddol fod yn llefydd peryglus i ymwelwyr nad ydynt yn cymryd gofal. Mae angen i ymwelwyr ag unrhyw un o'n safleoedd fod yn ymwybodol o'r peryglon posibl canlynol.

- Grisiau anwastad serth neu gul
- Arwyneb anwastad neu lithrig
- Y llygaid yn cymryd amser i addasu i newidiadau sydyn yn y golau
- Nenfwd isel
- Disgynfeydd peryglus
- Ardaloedd o ddŵr agored a dwfn
- Tywydd gwael (a all greu neu gynyddu peryglon)

## Gall eich asesiad risg chi nodi ardaloedd eraill lle mae angen gofal a sylw arbennig

Mae'n rhaid i arolygwyr grwpiau ysgol sicrhau bod y disgyblion yn cadw at y canlynol:

- PEIDIO Â dringo neu gerdded ar ben unrhyw waliau
- PEIDIO Â rhedeg ar unrhyw adeg (naill ai y tu mewn neu y tu allan i'r heneb). Gall llethrau a ffosydd fod yn beryglus
- PEIDIO Â phwyso allan o ffenestri neu agorfeydd
- PEIDIO Â dringo rheiliau neu ffensys
- PEIDIO Â AG eistedd ar reiliau llaw, rheiliau neu waliau
- PEIDIO Â gollwng ysbwriel
- GWISGO esgidiau a dillad addas
- defnyddio rheiliau llaw BOB AMSER os cânt eu darparu
- YSTYRIED ymwelwyr eraill

# Conwy Castle
## Additional Information



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cadw

## Additional Information

This guidance is intended to assist groups in planning visits to sites administered by Cadw. It is not a risk assessment. Each group will have its own particular requirements. Schools must carry out their own risk assessment in accordance with the guidance issued to them by central and local government from time to time. Group leaders are encouraged to carry out exploratory visits to assess the level of risk. There will be no charge for exploratory visits undertaken by prior arrangement.

## School groups must be supervised at all times

Historic monuments can be dangerous places for visitors who do not take care. Visitors at any of our sites need to be aware of the following potential hazards.

- Uneven steep or narrow stairs
- Uneven or slippery surfaces
- Eyes taking time to adjust to sudden changes of light
- Low headroom
- Unprotected drops
- Areas of open and deep water
- Adverse weather conditions (which may create or increase hazards)

## Your own risk assessment may identify other areas where particular care and attention is required

Supervisors of school groups must ensure that pupils:

- DO NOT climb up or walk along the top of any walls
- DO NOT run at any time (whether inside or outside the monument). Banks and moats can be hazardous
- DO NOT lean out of windows or openings
- DO NOT climb railings or fencing
- DO NOT sit on handrails, railings or walls
- DO NOT drop litter
- WEAR suitable footwear and clothing
- ALWAYS use hand rails where provided
- SHOW CONSIDERATION to other visitors

Ceir rhai o'r arwyddion rhybudd canlynol, neu bob un ohonynt, ar y safle hwn.
Some or all of the following warning signs can be found situated around the site.



Grisiau anwastad, serth a chul

Uneven, steep or narrow stairs



Lloriau anwastad neu lithrig

Uneven or slippery surfaces



Rhowch gyfle i'ch llygaid ddod yn gyfarwydd â'r golau-mannau tywyll

Please let your eyes adjust to the darkness



Toeau isel

Low headroom



Disgynfeydd peryglus

Unprotected drops

# Castell Conwy

## Ardaloedd perygl posibl

Yr ardaloedd a nodwyd fel rhai sydd angen gofal a sylw arbennig yw:

- **Tyredau pen eithaf y Capel a'r Tyrau Brenhinol — angen goruchwyliaeth ychwanegol**
- **Tyredau pen eithaf Tyrau'r Gogledd-Orllewin a'r De-Orllewin — angen goruchwyliaeth ychwanegol**
- **Grisiau anwastad yn y tyrau**
- **Dim mwy na 15 o ddisgyblion dan oruchwyliaeth yn y siop roddion ar yr un pryd**
- **Gall y cerrig a'r glaswellt fod yn llithrig os ydynt yn wlyb**

Rydym yn argymell yn gryf eich bod yn nodi lleoliad yr ardaloedd hyn cyn cychwyn ar eich ymweliad.

# Conwy Castle

## Areas of potential hazard

The areas which have been identified as requiring particular care and attention are:

- **Extreme top turrets of Chapel and King's Towers — extra supervision needed**
- **Extreme top turrets of North-West and South-West Towers — extra supervision needed**
- **Uneven steps in towers**
- **Maximum of 15 supervised pupils in the gift shop at one time**
- **Paved and grass areas may be slippery when wet**

We strongly recommend that you identify the location of these areas before commencing your visit.




| Gwybodaeth | Information |
|---|---|
| Ffôn 01492 592358 | Tel 01492 592358 |